Ymchwil Gymdeithasol Rhif:
12/2022

Dyddiad cyhoeddi:
15/02/2022

# Cynllun Peilot Cymorth Diogelu Ychwanegol Cwm Taf Morgannwg

## Adolygiad mewnol

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-80391-262-2

Cynllun Peilot Cymorth Diogelu Ychwanegol Cwm Taf Morgannwg: Adolygiad Mewnol

Nina Prosser ac Laura Entwistle

Adroddiad Ymchwil Llawn: Prosser, N., Entwistle, L.; (2022).*Cynllun Peilot Cymorth Diogelu Ychwanegol Cwm Taf Morgannwg: Adolygiad Mewnol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 12/2022. Ar gael yn: https://llyw.cymru/cynllun-peilot-cymorth-diogelu-ychwanegol-cwm-taf-morgannwg

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd i Lywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nina Prosser

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0258566

E-bost: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus.llyw.cymru

## Tabl Cynnwys


Rhestr o ffigurau ....................................................................................................2

Geirfa............. .........................................................................................................3

1. Cyflwyniad ..........................................................................................................4

2. Methodoleg ........................................................................................................6

3. Canfyddiadau .....................................................................................................7

4. Casgliadau .......................................................................................................23

5. Atodiadau .........................................................................................................25

**Rhestr o ffigurau**

Ffig 3a. Proffil y trigolion a ymatebodd i'r arolwg ............ 9
Ffig 3.b. Sut oedd pobl wedi cael gwybod am ganlyniad prawf positif? ............ 10
Ffig 3.c. Pryd glywsoch chi gyntaf am y Cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol? ............ 11
Ffig 3.d. Sut clywsoch chi am y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol? ............ 12
Ffig 3.e. Ar raddfa o 1-7 i ba raddau ydych yn cytuno â'r datganiad: “Rwy’n teimlo’n hyderus yn fy ngallu i hunanynysu drwy gydol fy nghyfnod hunanynysu." ............ 14
Ffig 3.f. Ar raddfa o 1-7, (lle mae 1 yn “ddim yn cytuno o gwbl’ a 7 yn “cytuno’n gryf”), i ba raddau wnaeth y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol eich helpu i hunanynysu? . 15
Ffig 3.g. A fyddai unrhyw ffynonellau cymorth eraill wedi eich annog/helpu i hunanynysu? E.e. ffrindiau a theulu, grwpiau cymunedol neu wirfoddol? ............ 17
Ffig 3.h. Atgyfeiriadau a dderbyniwyd ac a gyflawnwyd gan sefydliadau partner ............ 19

**Geirfa**

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| BAVO | Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr |
| CTM | Cwm Taf Morgannwg |
| GDPR | Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data – deddfwriaeth sy'n amlinellu sut y dylai cyrff cyhoeddus gasglu, defnyddio a storio gwybodaeth bersonol. |
| CBS RhCT | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| TAG | Grŵp Gweithredu Twyn |
| VAMT | Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Cysylltodd swyddogion polisi Llywodraeth Cymru o'r Is-adran Diogelu a Phobl Agored i Niwed â Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (Llywodraeth Cymru) i gynnal adolygiad byr o gynllun peilot cymorth COVID ar raddfa fach, o'r enw Cymorth Diogelu Ychwanegol Cwm Taf Morgannwg. Amcanion y cynllun peilot oedd deall a allai gyflwyno cynnig cymorth COVID annog pobl i gymryd rhan mewn profion cymunedol a gofyn am brawf COVID asymptomatig, ac a fyddai darparu cymorth ychwanegol i drigolion yn eu galluogi i gydymffurfio â gofynion hunanynysu'r llywodraeth.

1.2 Datblygwyd y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol i fynd i'r afael â rhwystrau a nodwyd i ofynion hunanynysu COVID-19. Dyluniwyd y cynllun peilot mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Diogelu lleol sy'n cynnwys aelodau grŵp Tactegol Diogelu Llywodraeth Cymru a leolir ledled ardal Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg. Nododd y grŵp llywio Diogelu y gallai hygyrchedd a fforddiadwyedd bwyd ac eitemau hanfodol fod yn rhwystr i hunanynysu i rai trigolion.

1.3 Gweinyddwyd cynllun peilot Cymorth Diogelu Ychwanegol Cwm Taf Morgannwg gan dri phrif sefydliad partner ledled ardal Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg yn ystod ei raglen profi cymunedol am COVID-19 rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2021. Gweinyddwyd y cynllun gan Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO), Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT).

1.4 Buddsoddodd Llywodraeth Cymru £10,000 ym mhob ardal awdurdod lleol i ariannu marchnata a chyfathrebu er mwyn cefnogi'r rhaglen profi cymunedol ledled ardal Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg. Nid yw'r data yn dangos yr ystod lawn o weithgarwch cyfathrebu a allai fod wedi digwydd trwy ddefnyddio adnoddau mewnol a sianelau cyfathrebu sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae'r data a gasglwyd yn dangos y mathau o weithgareddau cyfathrebu a ddefnyddiwyd, gan gynnwys talu i hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol, dosbarthu taflenni i fusnesau a llety preswyl, posteri, taflenni, ffilmiau wedi'u hanimeiddio a ffeithluniau mewn canolfannau profi cymunedol, a marchnata uniongyrchol. Fe aeth un ardal awdurdod lleol ati i gasglu data ar nifer y bobl oedd wedi gweld neges a'r

cyrhaeddiad a oedd yn cael ei briodoli i hysbysebion a dalwyd amdanynt ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy weithgarwch ar-lein arall.

1.5 Amcanion y Cynllun Peilot Cymorth Diogelu Ychwanegol oedd:

- **mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag cydymffurfio â gofynion hunanynysu a'u lleihau;**
- **dysgu a fyddai darparu cymorth ychwanegol yn annog unigolion i gymryd rhan mewn rhaglenni profi cymunedol asymptomatig.**

## 2. Methodoleg

2.1 Gweinyddwyd y cynllun peilot Cymorth Diogelu Ychwanegol gan dri phrif sefydliad partner ledled ardal Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg yn ystod ei raglen profi cymunedol am COVID-19 rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2021. Y bwriad oedd cynnal y cynllun peilot am gyfnod o bedair wythnos gydol mis Mawrth. Fodd bynnag, oherwydd lefel y galw a'r adborth gan y rhai a oedd yn defnyddio'r cynllun, fe gafodd ei ymestyn am bedair wythnos arall hyd at ddiwedd mis Ebrill 2021.

2.2 Gweinyddwyd y cynllun gan Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO), Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT). Roedd y model darparu Cymorth Diogelu Ychwanegol yn wahanol ym mhob awdurdod lleol yn ardal Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg. Yn Rhondda Cynon Taf, roedd atgyfeiriadau trigolion yn cael eu datblygu a'u cyflawni'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol trwy dîm o Gydgysylltwyr Cymunedol gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydledig y cyngor. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Merthyr, roedd atgyfeiriadau'n cael eu derbyn gan y cyngor gwirfoddol lleol a'u dosbarthu i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol lleol i ddosbarthu parseli bwyd ac eitemau hanfodol eraill ar gyfer y cartref.

2.3 Bu swyddogion polisi Llywodraeth Cymru o'r Is-adran Diogelu a Phobl Agored i Niwed yn cydweithio ag aelodau o'r Grŵp Tactegol Diogelu (Atodiad A) i ddatblygu dau adnodd i gynnal arolwg ar-lein; y naill i'w ddosbarthu i drigolion y gwyddys eu bod wedi cael cymorth gan y cynllun (Atodiad B), a'r llall i'w ddosbarthu i sefydliadau partner sy'n gyfrifol am weinyddu a monitro'r cynllun (Atodiad C). Gofynnodd yr arolwg i drigolion sut y nodwyd eu bod yn gymwys ar gyfer y cynllun, pryd a sut y clywsant am y cynllun am y tro cyntaf, pa gymorth a gawsant gan y cynllun ac i ba raddau roedd yn gymorth iddynt gydymffurfio â gofynion hunanynysu. Gofynnodd yr arolwg i sefydliadau partner am nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd, y cymorth a ddarparwyd, y cymorth ychwanegol roedd pobl wedi gofyn amdano (os yn berthnasol), pa adborth a dderbyniwyd a pha welliannau y gellid eu gwneud i'r cynllun.

## 3. Canfyddiadau

3.1 Yn ystod cyfnod y cynllun peilot, gwnaed 49 o atgyfeiriadau i gael mynediad i'r cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol, a chefnogwyd tua 130 o bobl. Gan fod yr arolwg ar gyfer sefydliadau partner yn gofyn am nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan bob sefydliad, nid yw'n glir faint o unigolion a gefnogwyd o ganlyniad i nifer y ceisiadau a gyflawnwyd. Casglodd dau sefydliad partner y data hwn ac roedd un wedi'i gynnwys yn ei ymateb i'r arolwg. O ganlyniad, roedd yn bosibl gwneud brasamcan o gyfanswm y bobl a gefnogwyd gan y cynllun. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus wrth drin y data hwn.

3.2 Hefyd, roedd rhai partneriaid wedi mynd ati i gasglu data'n anffurfiol ar yr ystod o aelwydydd a dderbyniodd y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol, ac felly roeddent yn gallu darparu data dangosol ar nifer yr unigolion a'r mathau o aelwydydd a gefnogwyd trwy'r cynllun. Mae'r data hwn yn anghyflawn ar gyfer pob ardal awdurdod lleol gan fod yr arolwg ar gyfer sefydliadau partner wedi gofyn i bartneriaid adrodd ar nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd, ond nid nifer yr unigolion a gefnogwyd trwy bob atgyfeiriad, na chyfansoddiad aelwydydd y darparwyd cymorth ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ddata'r arolwg yn awgrymu bod y rhai a fanteisiodd ar y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn deuluoedd o fwy na dau unigolyn (n = 4) a chyfanswm o 14 o unigolion, aelwydydd myfyrwyr (n = 4) a chyfanswm o chwe unigolyn ac aelwydydd un person (n = 2).

3.3 Mae data'r arolwg yn awgrymu bod rhai gwahaniaethau yn y cynnyrch bwyd a'r eitemau hanfodol a ddosbarthwyd ledled ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol. Fel arfer, roedd CBS Rhondda Cynon Taf yn cyflenwi bara, llaeth, te, coffi, caws, wyau a bisgedi yn ogystal â chewynnau a phapur toiled. Dywedodd aelodau o'r cyngor gwirfoddol lleol ym Merthyr eu bod wedi cyflenwi ffrwythau a llysiau ffres ac wedi'u rhewi, hanfodion oergelloedd gan gynnwys menyn, llaeth, ham wedi'i goginio a chaws, grawnfwydydd, cynhyrchion tun, cynhyrchion wedi'u rhewi, cewynnau, clytiau gwlyb a phethau ymolchi. Roedd y sefydliadau gwirfoddol ac nid-er-elw hyn yn cynnwys canolfan gymunedol, sefydliad elusennol a chlwb ieuenctid lleol sy'n cefnogi pobl ifanc anabl a theuluoedd. Roedd BAVO, Pen-y-

bont ar Ogwr, wedi cael bwyd mewn bocsys ac eitemau hanfodol gan siop gadwyn archfarchnad leol.

*Canfyddiadau gan drigolion*

3.4 Yn ystod cyfnod cynllun peilot Cymorth Diogelu Ychwanegol Cwm Taf Morgannwg, gwnaed 49 o atgyfeiriadau i sefydliadau partner, gan gefnogi tua 130 o unigolion ledled ardal y bwrdd iechyd. Dosbarthodd sefydliadau partner a oedd yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun arolwg ar-lein i'r holl unigolion a oedd wedi manteisio ar y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol i ofyn am eu safbwyntiau ar y cymorth a gawsant. Ymatebodd 20 o unigolion i'r arolwg, sef cyfradd ymateb o 15 y cant. O ystyried y sampl fach, a'r gyfradd ymateb isel, mae'n bwysig cydnabod y cyfyngiadau sy'n berthnasol i ddata'r arolwg hwn. Nid oes modd ystyried y data hwn fel data sy'n gynrychiadol o'r boblogaeth a gafodd gymorth gan y cynllun peilot Cymorth Diogelu Ychwanegol neu'n gynrychiadol o boblogaeth o drigolion a allai fod wedi elwa fwyaf o gymorth ychwanegol yn ystod y pandemig. Dylid trin y canfyddiadau fel rhai dangosol yn unig.


3.5 Mae'n bosibl bod data'r arolwg hwn wedi'i gyfyngu gan duedd diffyg ymateb. Er eu bod yn derbyn cymorth gan y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol, mae'n bwysig ystyried y gallai unigolion nad oeddent yn gallu hunanynysu yn amharod i ymateb i'r arolwg. Yn ogystal, mae'n bosibl y byddai ymatebwyr i'r arolwg wedi teimlo ei bod yn ddymunol yn gymdeithasol ymateb i gwestiynau mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ffafriol gan eraill, megis cydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol a hunanynysu. Felly, mae'n bosibl y gallai data'r arolwg gael ei gyfyngu hefyd gan duedd ymateb, gan arwain at rywfaint o or-adrodd ymddygiad dymunol.

*Proffil y cyfranogwyr*

3.6 Gan dderbyn y cyfyngiadau a amlinellir uchod, mae data'r arolwg yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn 16-24 oed (n = 6), yna'r rhai 25-34 oed (n = 5) a nifer a ddewisodd beidio â datgelu eu hoedran (n = 4). Mae'r sampl yn gytbwys o ran rhywedd (menywod = 9; dynion = 7), gyda nifer fach yn dewis peidio â datgelu eu rhywedd (n = 4). Cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion trwy gyfrwng y Saesneg (n =19), gydag un ymateb yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y

rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn perthyn i grŵp ethnig Gwyn (n = 12). Roedd dau ymatebydd yn hunaniaethu ag ethnigrwydd Asiaidd / Asiaidd Prydeinig, roedd un ymatebydd yn hunaniaethu ag ethnigrwydd Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig a nododd un arall ei fod yn hunaniaethu ag ethnigrwydd cymysg / grwpiau aml-ethnig. Dywedodd pum ymatebydd fod ganddynt anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu salwch y disgwylir iddo bara 12 mis neu fwy. Dywedodd dau o'r rhain fod eu hanabledd, eu hiechyd meddwl a/neu eu salwch yn cyfyngu "llawer" ar eu gallu i gyflawni tasgau bob dydd. Ceir dadansoddiad o'r sampl o ymatebwyr i'r arolwg yn Ffigur 3 a.

**Ffigur 3a. Proffil y trigolion a ymatebodd i'r arolwg**





Ymwybyddiaeth o’r cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol

3.7 Mae'r data yn dangos bod ymatebwyr wedi eu nodi fel pobl a oedd wedi profi'n bositif am COVID-19 mewn sawl ffordd wahanol. Bu'n rhaid i'r rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg hunanynysu ar ôl cael canlyniad positif am COVID-19 (n = 13), ac roedd y gweddill wedi'u nodi fel cysylltiad agos â rhywun a oedd yn dangos symptomau neu wedi cael canlyniad positif am COVID-19. Dywedodd y rhan fwyaf

o'r ymatebwyr eu bod wedi cael canlyniad positif am COVID-19 ar ôl mynychu apwyntiad mewn prif ganolfan brofi ar ôl dangos symptomau (n = 7). Dywedodd dau ymatebydd eu bod wedi cael canlyniad positif ar ôl cael prawf galw i mewn yn y gymuned leol. Roedd un ymatebydd wedi cael prawf gartref. Nodwyd bod unigolyn arall wedi'i heintio ar ôl i aelod agos o'i deulu gael ei dderbyn i'r ysbyty a marw o ganlyniad i COVID-19.

**Ffig 3.b. Sut oedd pobl wedi cael gwybod am ganlyniad prawf positif?**





3.8 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y nodwyd eu bod wedi cael cysylltiad agos â rhywun a oedd yn dangos symptomau neu wedi cael canlyniad positif am COVID-19 (n = 7) wedi cael eu nodi trwy alwad ffôn gan y system Profi Olrhain Diogelu a weithredir gan y llywodraeth (n = 5). Cafodd un ymatebydd arall ei nodi yn dilyn galwad ffôn gan Linell Gymorth Hunanynysu Cwm Taf Morgannwg. Roedd un ymatebydd yn ansicr sut y cafodd ei nodi fel cysylltiad agos.

3.9 Dengys data'r arolwg fod ymatebwyr wedi cael gwybod am y cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol am y tro cyntaf trwy sianelau gwahanol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi cael gwybod am y cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol "yn ystod sgwrs yn dweud wrthynt am hunanynysu (n = 10) gydag aelod o'r gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu". Dywedodd un ymatebydd ei fod wedi cael gwybod am y cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol am y tro cyntaf "tua diwedd y cyfnod hunanynysu." Dywedodd dau unigolyn eu bod wedi clywed am y cynllun am y tro cyntaf "ar ôl clywed bod rhaid i ni hunanynysu." Yn yr achosion hyn, roedd y system Profi Olrhain Diogelu wedi nodi bod un ymatebydd yn gysylltiad agos, ac roedd yr ail ymatebydd wedi cael prawf positif yn dilyn prawf gartref. Yn

yr amgylchiadau hyn, dywedodd yr ymatebwyr hyn eu bod wedi clywed am y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol am y tro cyntaf "ar ôl cael gwybod bod rhaid hunanynysu" a thrwy ffrindiau ac aelodau'r teulu a Llinell Gymorth Hunanynysu Cwm Taf Morgannwg.

**Ffig 3.c. Pryd glywsoch chi gyntaf am y Cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol?**





3.10 Nid oes modd dod i unrhyw gasgliadau dibynadwy ar sail y data hwn o ystyried y sampl fach a'r cyfyngiadau a amlinellir uchod. Mae'r data'n dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gafodd ganlyniad positif am COVID-19 yn dilyn apwyntiad mewn prif ganolfan brofi neu ganolfan brofi galw i mewn yn y gymunedol leol wedi clywed am y cymorth a oedd ar gael trwy'r gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu yn ystod sgwrs lle dywedwyd wrthynt am hunanynysu. Mae nifer fach o ymatebion yn awgrymu bod y rhai a gafodd ganlyniad positif trwy ddull arall, megis cymryd prawf gartref neu ddod i gysylltiad â gwasanaethau ysbyty, wedi dod yn ymwybodol o'r cynllun ar adegau gwahanol a thrwy sianelau gwahanol.

3.11 Mae'r data cyfyngedig sydd ar gael yn dangos mwy o amrywiad ar gyfer ymatebwyr a gafodd wybod eu bod yn gysylltiad agos (n = 7). Dywedodd tri ymatebydd eu bod wedi cael gwybod am y cynllun yn ystod sgwrs lle dywedwyd

wrthynt y dylent hunanynysu. Ni allai dau ymatebydd gofio pryd y cawsant wybod am y cynllun. Mae'r data'n dangos bod yr ymatebwyr a gafodd wybod eu bod yn gysylltiad agos yn llai sicr am sut y cawsant eu nodi fel cysylltiad agos, ac roeddent wedi clywed am y cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol am y tro cyntaf mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys trwy'r system Profi Olrhain Diogelu, Llinell Gymorth Hunanynysu Cwm Taf Morgannwg, y Ganolfan Byd Gwaith leol, a ffrindiau a theulu.

**Ffig 3.d. Sut clywsoch chi am y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol?**




3.12 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 naill ai'n anghytuno bod cael gwybod am y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol wedi'u hannog i fynychu a chymryd prawf COVID-19 (n = 5), neu wedi nodi nad oedd y cwestiwn yn berthnasol (n = 5). Nid oedd ymatebydd arall yn gwybod a oedd y cynnig wedi'i annog i fynychu a chymryd prawf COVID-19. Cytunodd un ymatebydd a oedd wedi mynychu canolfan brofi galw i mewn yn y gymuned leol bod y cynnig wedi'i annog i fynychu. Unwaith eto, mae data cyfyngedig yn awgrymu, o'r rhai a gafodd eu nodi fel cysylltiad agos (n=7), roedd

pum ymatebydd yn cytuno bod clywed am y cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol wedi eu hannog i fynychu a chymryd prawf COVID-19.


*Hyder ynghylch y gallu i hunanynysu*

3.13 Pan ofynnwyd pa mor hyderus oedd trigolion yn teimlo yn eu gallu i hunanynysu am y cyfnod gofynnol (ar raddfa o 1-7, lle mae 1=ddim yn hyderus o gwbl a 7=yn hyderus iawn), roedd y mwyafrif (n=11) yn teimlo'n “hyderus iawn” yn eu gallu i gydymffurfio â'r gofynion. Sgôr cymedr trigolion ar gyfer hyder yn eu gallu i hunanynysu oedd 5.8. Nid oedd unrhyw un o'r 13 unigolyn a nododd lefelau hyder cyfartalog ac uwch na'r cyfartaledd yn eu gallu i hunanynysu yn dweud eu bod wedi gadael eu preswylfa yn ystod y cyfnod hunanynysu. Fodd bynnag, oherwydd dyluniad yr arolwg, nid oes modd gwybod a oedd trigolion wedi cael ymwelwyr yn eu cartrefi, neu wedi dod i gysylltiad agos ag eraill yn ystod eu cyfnod hunanynysu.

3.14 Ymysg yr ymatebwyr a nododd hyder uwch na'r cyfartaledd yn eu gallu i hunanynysu, dim ond pedwar a nododd fod angen cymorth arall arnynt i'w helpu i hunanynysu. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn wedi rhoi nifer o resymau gwahanol dros fod yn hyderus yn eu gallu i hunanynysu, gan gynnwys derbyn cymorth, derbyn cymorth gan deulu a/neu ffrindiau, dilyn cyfarwyddiadau, profiad blaenorol o ynysu, awydd i osgoi trosglwyddo'r feirws a theimlo'n gyfforddus. Disgrifiodd un ymatebydd bwysigrwydd derbyn cymorth gan y cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol yn absenoldeb rhwydwaith lleol o deulu neu ffrindiau.


*“[Wnes i ddim gadael fy nhŷ] oherwydd fe ges i sicrwydd y byddai gen i barsel bwyd gan fy mod yn fyfyriwr rhyngwladol ac nad oes gennyf gefnogaeth yma.”*

**Ffig 3.e. Ar raddfa o 1-7 i ba raddau ydych yn cytuno â'r datganiad: "Rwy'n teimlo'n hyderus yn fy ngallu i hunanynysu drwy gydol fy nghyfnod hunanynysu."**




3.15 Dywedodd yr ymatebwyr a nododd eu bod yn llai hyderus na'r cyfartaledd yn eu gallu i hunanynysu fod angen eitemau eraill i'w helpu i hunanynysu, yn enwedig derbyn parsel bwyd yn brydlon ar ddechrau eu cyfnod hunanynysu, galwadau ffôn i gynnig sicrwydd, a chymorth ariannol. Fodd bynnag, dim ond dau o'r saith ymatebydd hyn a ddywedodd eu bod wedi gadael eu preswylfa yn ystod eu cyfnod hunanynysu, ac roedd y ddau wedi gadael ar un achlysur yn ystod y pythefnos. Pan ofynnwyd iddynt am y rheswm pam eu bod wedi gadael eu cartref yn ystod eu cyfnod hunanynysu, dywedodd un unigolyn ei fod wedi teimlo'n bryderus, a dywedodd y llall nad oedd wedi derbyn y cymorth yr oedd ei angen arno, gan ei fod wedi clywed am y cynllun am y tro cyntaf tua diwedd ei gyfnod hunanynysu. Dywedodd yr unigolyn hwn ei fod wedi derbyn parsel bwyd a thri galwad ffôn dridiau cyn diwedd ei gyfnod hunanynysu. Yn gyffredinol, pan ofynnwyd iddynt i ba raddau roedd y Cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol wedi'u helpu i hunanynysu, cafwyd sgôr cymedr o 3.75 gan yr ymatebwyr a nododd lefel hyder is na'r cyfartaledd yn eu gallu i hunanynysu. (1=ddim yn cytuno o gwbl i 7=cytuno'n gryf).

**Ffig 3.f. Ar raddfa o 1-7, (lle mae 1 yn “ddim yn cytuno o gwbl’ a 7 yn “cytuno’n gryf”), i ba raddau wnaeth y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol eich helpu i hunanynysu?**




*Math o gymorth a dderbyniwyd*

3.16 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr adrodd ar y math o gymorth a dderbyniwyd, nododd y rhan fwyaf ohonynt (n = 16) eu bod wedi derbyn parseli bwyd a/neu gymorth i siopa ar gyfer yr aelwyd. Dangosodd dau ymateb fod cynorthwyydd wedi darparu cymorth mwy pwrpasol i ddiwallu anghenion yr aelwyd, megis casglu rhestr siopa. Dywedodd tri ymatebydd eu bod wedi derbyn galwadau ffôn yn holi am eu llesiant, neu gyfeillio dros y ffôn yn ystod eu cyfnod hunanynysu.

3.17 Nododd 11 o'r ymatebwyr a oedd wedi manteisio ar y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol nad oedd angen rhagor o gymorth arnynt i'w helpu i hunanynysu. Ymhelaethodd rhai ymatebwyr ar natur y cymorth a ddarparwyd trwy'r cynllun a sut roedd wedi diwallu eu hanghenion, fel eu hanghenion deietegol penodol.

*“Roedd [y cymorth] yn ddefnyddiol iawn. Fe gafodd fy anghenion diabetig eu hystyried a'u diwallu."*

*Trigolyn*

Soniodd ymatebydd arall am amseriad a strwythur y gwasanaeth a ddarparwyd wrth ddisgrifio sut roedd yn diwallu ei anghenion.

> *“Roedd yn strwythuredig ac yn drefnus iawn; cyn gynted ag y cysylltais â'r cyngor fe ges i fwyd y diwrnod hwnnw, ac fe gafodd popeth ei wneud mewn modd proffesiynol.”*
>
> *Trigolyn*


3.18 Mewn tri achos, dywedodd ymatebwyr eu bod wedi derbyn cymorth a oedd naill ai'n annigonol i ddiwallu eu hanghenion neu wedi cyrraedd yn rhy hwyr yn ystod y cyfnod hunanynysu, gan olygu nad oedd yn ddefnyddiol. Yn yr achosion hyn, roedd un unigolyn yn rhannu tŷ gydag unigolion eraill, lle’r oedd un ohonynt wedi derbyn cymorth, ac o ganlyniad nid oedd wedi derbyn digon o fwyd i ddiwallu anghenion y tŷ cyfan. Roedd dau ymatebydd wedi derbyn galwad ffôn yn eu hysbysu am y cymorth ychwanegol a oedd ar gael yn rhy hwyr. Roedd yr unigolion hyn yn derbyn cymorth eisoes neu roedd eu cyfnod hunanynysu yn tynnu tua'i derfyn ac roedd yn rhy hwyr iddynt fanteisio'n llawn ar y cynllun. O dan yr amgylchiadau hyn, roedd un ymatebydd yn byw ar ei ben ei hun, ac ar ôl cwblhau prawf gartref roedd wedi derbyn galwad ffôn i'w hysbysu am y cynllun ychydig cyn diwedd ei gyfnod hunanynysu. Roedd yr ail ymatebydd yn byw ar aelwyd ehangach â thri unigolyn. Nododd fod y gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu wedi gwneud nifer o wallau wrth dderbyn neu brosesu gwybodaeth a allai fod wedi gohirio'r broses o gyflwyno'r cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol.

3.19 Pan ofynnwyd pa gymorth roedd ei angen arnynt, nododd ymatebwyr nad oeddent wedi derbyn cymorth i ddiwallu eu hanghenion, fod angen cymorth siopa bwyd neu barsel bwyd unigol arnynt er mwyn gallu dosbarthu bwyd yn well ymysg pobl sy'n rhannu'r llety. Nododd un ymatebydd fod angen gwybodaeth amserol am y cynllun adeg cynnal profion Covid-19. Dywedodd yr ail ymatebydd y byddai wedi dymuno cael galwadau ffôn llesiant bob dydd.

3.20 Mae data'r arolwg yn awgrymu bod gan hanner yr ymatebwyr a dderbyniodd gymorth ychwanegol trwy'r cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol (n = 10) ffynonellau cymorth eraill a allai fod wedi eu helpu i hunanynysu, megis cymorth teulu a ffrindiau. Pan ofynnwyd pa eitemau eraill a allai fod wedi helpu'r ymatebwyr

hyn i aros gartref, cyfeiriodd un unigolyn at daliad uniongyrchol gan y cyngor a oedd yn ei alluogi i aros gartref. Awgrymodd trigolyn arall y byddai eitemau eraill ar gyfer ysmygu wedi ei helpu i hunanynysu. Gwnaeth dau breswylydd arall sylwadau ar amseroldeb derbyn y cymorth, gan nodi bod angen parsel bwyd arnynt yn brydlon ar ddechrau eu cyfnod hunanynysu, ond nad oeddent wedi'i dderbyn.

**Ffig 3.g. A fyddai unrhyw ffynonellau cymorth eraill wedi eich annog/helpu i hunanynysu? E.e. ffrindiau a theulu, grwpiau cymunedol neu wirfoddol?**




3.21 Dywedodd chwe ymatebydd nad oedd ganddynt unrhyw ffynonellau cymorth eraill i'w helpu i hunanynysu. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn nad oedd angen unrhyw gymorth arall arnynt i hunanynysu. Nododd pump o'r chwe ymatebydd eu bod yn ddiolchgar am y cynnig o gymorth:

> *"Gwasanaeth gwych [...] diolch yn fawr am y cymorth a gawsom. Fydden ni ddim wedi ymdopi heb y cymorth hwn - rydym yn hynod ddiolchgar."*

3.22 Dywedodd un trigolyn sy'n byw ar ei ben ei hun na chafodd unrhyw gymorth gan fod y gwasanaeth wedi cysylltu ag ef tua diwedd y cyfnod hunanynysu. Dywedodd y bu'n rhaid gadael y tŷ unwaith yn ystod y cyfnod hwn:


> *"Fe fu'n rhaid i mi ymdopi heb gymorth. Yr unig beth a ges i oedd 3 galwad ffôn a chymorth bwyd 3 diwrnod cyn diwedd y cyfnod hunanynysu pan ges i wybod am y cymorth hwn am y tro cyntaf."*

Mae'r data hwn yn awgrymu efallai bod angen i gynlluniau yn y dyfodol ystyried proses a phrydlondeb rhannu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl ac aelodau o'r teulu.

*Canfyddiadau gan sefydliadau partner*

3.23 Yn ystod cyfnod y cynllun peilot Cymorth Diogelu Ychwanegol, gwnaed 49 o atgyfeiriadau i'r cynllun a'u trosglwyddo wedyn i'r tri phrif sefydliad partner rhanbarthol i'w cyflawni. Cafodd 44 o'r 49 o atgyfeiriadau hyn eu cymeradwyo a'u datblygu i'w prosesu. Nid oedd angen cymorth ar dri atgyfeiriad. Y sefydliadau partner hyn oedd Cymdeithas Gweithredu Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO), Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBS RhCT). Mae BAVO a VAMT yn gynghorau gwirfoddol sirol ac yn sefydliadau aelodaeth, ac maent yn darparu cefnogaeth a chymorth i grwpiau cymunedol, gwirfoddol ac nid-er-elw sy'n aelodau ledled Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Cyflawnodd VAMT yr atgyfeiriadau a gawsant trwy gwmpas a gweithgareddau tri sefydliad sy'n aelodau, sef Ymddiriedolaeth Elusennol Stephens a George, Sefydliad Gellideg a Grŵp Gweithredu Twyn (TAG). Cyflawnodd BAVO ddau atgyfeiriad yn uniongyrchol, trosglwyddwyd trydydd i dîm Dosbarthu Bwyd RhCT ond nid oedd ei angen, ac nid oedd angen cymorth ar gyfer dau atgyfeiriad arall.

**Ffig 3.h. Atgyfeiriadau a dderbyniwyd ac a gyflawnwyd gan sefydliadau partner**




3.24 Darparodd Llywodraeth Cymru rywfaint o arweiniad mewn perthynas â faint o arian y dylai sefydliadau partner ei gyllidebu i gyflenwi eitemau hanfodol dros y cyfnod hunanynysu. Mae ymatebion gan sefydliadau partner yn amlygu gwahaniaethau yn y symiau a wariwyd gan bob sefydliad i weinyddu'r cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol. Dywedodd VAMT ei fod wedi cyllidebu £100 ar gyfer teulu o bedwar am gyfnod ynysu o 10 diwrnod, a'i fod wedi gwario £2746.99 ar 32 o deuluoedd yn cynnwys 109 o unigolion. Yn gyffredinol, gwariant cyfartalog VAMT fesul aelwyd oedd tua £85, gyda chymorth i bob aelwyd yn cyrraedd tua thri o bobl ar gyfartaledd. Dywedodd cyngor RhCT ei fod wedi cyllidebu ar gyfrer £25 y pen, ynghyd â ffi reoli o 15 y cant i dalu costau staff, gan gynnwys costau teithio. Nododd y Cyngor ei fod wedi derbyn 10 atgyfeiriad yn cynnwys 22 o bobl. Ar sail y ffigurau hyn, rhagdybir bod £550 wedi'i wario ar wariant uniongyrchol (heb gynnwys y ffioedd rheoli cysylltiedig). Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu mai £55 oedd gwariant cyfartalog Cyngor RhCT fesul aelwyd, a bod dau unigolyn fesul cartref wedi elwa o'r cymorth. Dywedodd BAVO ei bod wedi cyllidebu £75 ar gyfer pob atgyfeiriad fesul cyfnod ynysu saith diwrnod, yn unol â chanllawiau

Llywodraeth Cymru, a nododd ei bod wedi derbyn dau atgyfeiriad a oedd yn costio £18 a £52. Nododd sefydliadau partner rai gwahaniaethau o safbwynt cynnwys parseli bwyd ac eitemau hanfodol eraill a ddarparwyd i aelwydydd. Roedd parseli bwyd a ddosbarthwyd trwy VAMT yn cynnwys ffrwythau a llysiau ffres ac wedi'u rhewi, eitemau hanfodol i'r oergell, grawnfwydydd, cynhyrchion tun ac wedi'u rhewi a phethau ymolchi. Fel arfer, roedd y rhai a gyflenwyd gan gyngor RhCT yn cynnwys llaeth, bara, te, coffi, cewynnau, papur toiled, caws, wyau a bisgedi. Yn olaf, dosbarthwyd parseli bwyd BAVO gan fanc bwyd lleol, ac ar ail achlysur gan fanwerthwr archfarchnad fawr. Nododd BAVO fod yr atgyfeiriad cyntaf wedi dod i law cyn i'r cynllun peilot gael ei sefydlu'n ffurfiol a'i roi ar waith. O ganlyniad, fe'i cyflawnwyd gan fanc bwyd lleol ac fe'i hategwyd gan gynnyrch ffres a oedd yn costio £18 ar gyfer aelwyd rhiant sengl a phlentyn. Cyflawnwyd yr ail atgyfeiriad trwy brynu dau focs bwyd parod o gadwyn archfarchnad fawr a oedd yn cynnwys eitemau i'r cwpwrdd a chynnyrch ffres i gynnal teulu o dri. Dywedodd BAVO ei fod wedi penderfynu dewis y dull cyflenwi hwn er mwyn ceisio rheoli ansawdd y cynnyrch, sicrhau oes silff hir a sicrhau cysondeb ar gyfer y rhai a oedd yn derbyn yr eitemau.

3.25 Pan ofynnwyd a oedd yr aelwydydd sy'n defnyddio'r cynllun wedi gwneud unrhyw gais arall am gymorth, cafwyd nifer o geisiadau ychwanegol. Nododd un sefydliad partner ei fod wedi derbyn ceisiadau am gasglu meddyginiaethau presgripsiwn ac am daliadau nwy a thrydan (ar gyfer yr aelwydydd hynny ag allwedd mesurydd) a’i fod wedi gweithredu’r ceisiadau hynny. Cofnododd sefydliad partner arall y math a'r nifer o geisiadau eraill am gymorth a dderbyniwyd gan gynnwys cais am gymorth i fynd â chi am dro, cais am alwadau ffôn cyfeillgar, un am gymorth i ddod o hyd i waith, un ar gyfer cyngor ariannol/budd-daliadau ac un arall ar gyfer duvet. Cafodd pob cais ychwanegol ei weithredu.

3.26 Hefyd, gofynnwyd i sefydliadau partner a oeddent yn darparu unrhyw wasanaethau cymorth eraill i alluogi pobl i hunanynysu. Dywedodd VAMT fod Grŵp Gweithredu Twyn (TAG) yn darparu pecynnau gweithgareddau plant a oedd yn addas ar gyfer unrhyw blant sy'n ynysu, ac yn darparu gwasanaeth prydau poeth dyddiol a ddefnyddiwyd gan un aelwyd yn ystod y cyfnod ynysu. Hefyd, nododd VAMT fod sawl teulu (mae'r nifer yn anhysbys) a dderbyniodd gymorth

wedi ymuno â Phantri Bwyd Gellideg. Ni nododd BAVO unrhyw geisiadau am gymorth ychwanegol, ond dywedodd fod un aelwyd wedi'i chyfeirio at y taliad hunanynysu a oedd yn cael ei gynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ynghyd â chymorth i gyrchu'r taliad, nad oedd ei angen yn y pen draw.

3.27 Darparodd cyngor RhCT ddata ar lesiant hunangofnodedig trigolion a oedd yn defnyddio'r cynllun. Casglwyd y data hwn yn anffurfiol trwy sgwrsio â thrigolion a oedd yn defnyddio'r cynllun, ac nid yn ffurfiol trwy'r arolwg trigolion. O'r 37 o atgyfeiriadau yr ymdriniwyd â hwy, nodwyd bod deg unigolyn wedi dweud eu bod yn teimlo'n "bryderus", roedd tri yn teimlo'n "unig", roedd dau yn teimlo'n "ofnus" ac roedd un unigolyn yn teimlo'n "ddryslyd". Mae'n bwysig nodi yma nad oedd y data hwn wedi'i gasglu'n rheolaidd nac yn gyson fel rhan o brosesau monitro data i gyd-fynd â'r cynllun peilot. Nid yw'n hysbys a oedd y data hwn wedi'i gasglu trwy ddefnyddio metrig asesu wedi'i ddilysu. Fodd bynnag, mae'r data hwn yn cynnig rhywfaint o wybodaeth am effeithiau posibl gofynion hunanynysu COVID-19 ar lesiant goddrychol rhai unigolion. Dywedodd cyngor RhCT ei fod wedi ffonio trigolion er mwyn gwirio llesiant unigolion. Nodwyd bod gweithwyr a oedd yn gwneud gwaith siopa bwyd wedi derbyn gwybodaeth am Ganolfan Iechyd Meddwl Age Connects Morgannwg (ACM), Cyngor ar Bopeth a MIND Cwm Taf er mwyn darparu gwybodaeth i bobl os oedd angen rhagor o gymorth ymarferol/emosiynol etc. arnynt. Nid oes modd gwneud sylw ar nifer yr aelwydydd a dderbyniodd yr wybodaeth hon gan nad yw'n hysbys sut y dosbarthwyd yr wybodaeth na faint o bobl a fanteisiodd ar y cymorth.

3.28 Mae'n bwysig nodi bod y cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol wedi'i ddylunio a'i weithredu yn gyflym, mewn ymateb i ymestyn cyfyngiadau symud COVID-19 hyd at fis Mawrth 2021. Fodd bynnag, mewn ymateb i gwestiwn am sut y gellid gwella'r cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol, cyfeiriodd sefydliadau partner at gamau y gellid eu cymryd i wella gwaith rheoli gwybodaeth, logisteg a chyfathrebu. Dywedodd dau o'r tri sefydliad partner eu bod wedi cael anawsterau yn bodloni gofynion GDPR wrth weinyddu'r cynllun. Hefyd, cyfeiriodd dau sefydliad partner at yr angen i hyrwyddo'r cynllun yn well, cyflwyno dulliau cyfathrebu cydgysylltiedig, a rhannu gwybodaeth rhwng y grwpiau atgyfeirio gwahanol sy'n dod i gysylltiad ag aelwydydd.

*"Cyfathrebu – clywodd y rhan fwyaf o deuluoedd yn ardal Gellideg am y cynnig ar lafar gan bobl eraill, a doedd y gwasanaeth Tracio ac Olrhain ddim wedi cynnig cymorth i bawb."*

*Sefydliad partner*

Mae rhywfaint o adborth yn awgrymu nad oedd gwaith marchnata a hyrwyddo'r cynllun yn gyson bob amser mewn dalgylchoedd gwahanol yn y fwrdeistref, ac nid oedd rhai aelwydydd yn ymwybodol o'r cynllun o'r herwydd. Teimlwyd bod y cyfnod byr yn arwain at y cynllun peilot wedi cael effaith ar gyrhaeddiad ac effeithiolrwydd gweithgarwch cyfathrebu i hyrwyddo'r cynllun.

Roedd un sefydliad partner wedi awgrymu gwelliannau posibl i'r rhwydwaith dosbarthu er mwyn cefnogi'r cynllun yn y dyfodol, sy'n cydnabod yr angen am hwylustod wrth weinyddu'r mathau hyn o ymateb cydgysylltiedig.

*"Roedd y cynllun peilot yn ardderchog – efallai y byddai'n bosibl gwella'r cynllun trwy fod ag aelod penodedig o staff ACM ym mhob lleoliad daearyddol i sicrhau bod modd cwblhau gwaith siopau bwyd mewn amser byr."*

*Sefydliad partner*

3.29 Oherwydd y data sydd ar gael, ni fu'n bosibl cyfosod data o'r arolygon trigolion a sefydliadau partner. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod canfyddiadau'r arolwg sefydliadau partner yn gyson â rhai o ganfyddiadau'r arolwg trigolion. Mae'r rhain yn cynnwys sylwadau rhai trigolion am yr angen am system atgyfeirio a chyflenwi fwy hwylus a chydgysylltiedig rhwng pwynt profi a phwynt mynediad ar gyfer y cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol, a'r angen am waith hyrwyddo a chyfathrebu gwell i gefnogi'r cynllun.

## 4. Casgliadau

4.1 Mae'r casgliadau hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau arolygon graddfa fach gyda sefydliadau partner sy'n gyfrifol am weinyddu cynllun peilot Cymorth Diogelu Ychwanegol Cwm Taf Morgannwg, a thrigolion a oedd yn defnyddio'r cynllun. Mae'n bwysig ailddatgan y cyfyngiadau sy'n berthnasol i'r casgliadau hyn, oherwydd graddfa a natur gynrychiadol yr astudiaeth. Oherwydd cyd-destun cyflwyno'r cynllun peilot yn gyflym yn ystod y pandemig COVID-19, nid oes modd nodi a gwerthuso union effaith y cynllun ac asesu i ba raddau roedd y cynllun peilot yn galluogi unigolion i gydymffurfio â gofynion hunanynysu, yn ychwanegol at wybodaeth iechyd y cyhoedd a mathau eraill o gymorth y gallai unigolion fod wedi cael mynediad atynt hefyd. Nid yw'n hysbys ychwaith i ba raddau y gellir efelychu'r cynllun mewn ardaloedd byrddau iechyd lleol eraill. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau yn darparu rhywfaint o wybodaeth am ddichonoldeb y cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol ar gyfer trigolion a sefydliadau partner, ynghyd â rhywfaint o wybodaeth am werth ac effeithiolrwydd ymddangosiadol y gwaith.

4.2 Gellir crynhoi casgliadau'r adolygiad graddfa fach hwn fel a ganlyn:

1. Roedd y rhan fwyaf o'r trigolion a oedd yn defnyddio'r cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol yn gwneud hynny yn dilyn mynychu apwyntiad mewn prif ganolfan brofi a chlywed am y cymorth a oedd ar gael yn dilyn galwad ffôn gan y gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu. Mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu y gellid cyflymu, ac o bosibl symleiddio, cysylltiad cychwynnol â thrigolion i'w hysbysu am y cynllun.

2. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai ymwybyddiaeth o'r cynllun Cymorth Diogelu Ychwanegol ymysg y nifer fach o ymatebwyr a oedd wedi dod i gysylltiad agos â rhywun a oedd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 annog trigolion i ymweld â chanolfan brofi galw i mewn yn y gymuned i gael prawf COVID-19. Mae data'r arolwg ar gyfer trigolion a sefydliadau partner yn dangos y gellid gwella'r broses o hyrwyddo a rhannu gwybodaeth am y cynllun yn gyffredinol, ac i ryw raddau, yr hyrwyddo a rhannu gwybodaeth sydd wedi'u targedu.

3. Roedd y rhan fwyaf o'r trigolion a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo'n hyderus yn eu gallu i hunanynysu dros yr holl gyfnod. Fodd bynnag, mae'r data yn dangos bod angen rhagor o gymorth i hunanynysu ar y rhai a ddywedodd fod lefel eu hyder yn eu gallu i hunanynysu yn llai na'r cyfartaledd, sy'n awgrymu y gallai anghenion unigol fod yn ystyriaeth bwysig wrth gynllunio'r cynnwys a'r dull o gyflwyno cynlluniau yn y dyfodol.

4. Mae rhywfaint o dystiolaeth gan sefydliadau partner a nifer fach o drigolion yn amlygu rhai heriau gyda'r cynllun, gan gynnwys diffyg gwaith hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth, ac anawsterau o ran rhannu gwybodaeth, a allai fod wedi effeithio ar effeithlonrwydd y cynllun.

5. Mae ymatebion i'r arolygon gan sefydliadau partner a'r rhan fwyaf o drigolion yn dangos bod y cynllun wedi cael derbyniad cadarnhaol gan gyfranogwyr a'i fod wedi'u cynorthwyo i hunanynysu. Mae adborth gan drigolion yn dangos eu bod yn ddiolchgar am y cynllun ac am y cymorth a gafwyd, megis derbyn bwyd ac eitemau hanfodol, a oedd wedi eu nodi’n flaenorol fel rhwystrau i hunanynysu.

Nid oedd yn fwriad i’r Cynllun Peilot Cymorth Diogelu Ychwanegol gynnig cymorth ffurfiol ar gyfer iechyd meddwl a llesiant trigolion na cheisio casglu unrhyw ddata yn ffurfiol yn erbyn dangosyddion iechyd meddwl a llesiant. Nid oedd pob darparwr yn cynnig galwadau ffôn rheolaidd i roi sicrwydd a chefnogaeth fel rhan o'r cynllun cymorth. Fodd bynnag, roedd pobl yn croesawu'r galwadau ffôn a wnaed ac roedd rhai wedi gwneud cais amdanynt. Rhaid nodi na chasglodd yr arolwg unrhyw ddata ffurfiol ar iechyd meddwl a llesiant. Fodd bynnag, mae rhai canfyddiadau'n awgrymu gwerth posibl casglu'r data hwn yn ffurfiol trwy ddefnyddio adnodd asesu wedi'i ddilysu yn allanol fel rhan o gynlluniau cymorth yn y dyfodol.

## 5. Atodiadau

### Atodiad A

Roedd aelodaeth o'r Grŵp Tactegol Diogelu yn cynnwys Arweinwyr Diogelu o'r partneriaid sector cyhoeddus a gwirfoddol canlynol:

| |
|---|
| Age Connects Morgannwg |
| Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Diogelu a Phobl Agored i Niwed |
| Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg - Cynllunio Strategol a Gweithredol |
| Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) |
| Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT) |
| Interlink RhCT |

**Atodiad B**

Copi o gwestiynau'r arolwg a ofynnwyd i drigolion.

1.Would you like to complete this survey in English or Welsh? Ym mha iaith hoffech chi gwblhau'r arolwg hwn? Yn y Gymraeg neu'r Saesneg?

- English
- Cymraeg

2.We understand you have recently been instructed to self-isolate. Was this as a result of:

- Receiving a positive Covid-19 test result
- Being identified as a close contact

3.Did you receive your positive test result:

- Following a walk-in local community test?
- Following an appointment at a main testing centre after displaying symptoms?
- I don't know
- Prefer not to say
- 

4.How were you identified as a close contact?

- Following a phone call from Test Trace Protect
- Following a phone call to the Cwm Taf Morgannwg Self-Isolation Helpline
- I don't know
- Prefer not to say
- 

5.When did you first hear about the Enhanced Protect Support offer?

- Prior to be advised to self-isolate
- During a conversation when being advised to self-isolate
- After being told to self-isolate

- I don't know
- Prefer not to say
- [ ]

6.How did you hear about the Enhanced Protect Support offer?

- Test, Trace, Protect
- Cwm Taf Morgannwg Self-isolation Helpline
- Social Media
- Friends/Family
- I don't know
- Prefer not to say
- [ ]

7.Did the Enhanced Protect Support offer encourage you to attend and undertake a test for Covid-19?

- Yes
- No
- Not applicable
- I don't know
- Prefer not to say

8.During your self-isolation period, how many times did you leave your house?

- None
- Once
- Twice
- Several times
- Every other day
- Everyday

9.On a scale of 1-7, (where 1 is “not at all” and 7 is “very much so”), to what extent do you agree with the statement: “I felt confident in my abilities to self-isolate for the whole of my self-isolation period.”

1

2

3

4

5

6

7

10.Why do you say this?

11.What support did you receive as part of the Enhanced Protect Support offer?

12.Were there any other sources of support that may have encouraged/ helped you to self-isolate? E.g. friends and family, community or volunteer groups

- Yes
- No
- I don't know
- Prefer not to say

13.On a scale from 1-7 (where 1 is “not at all” and 7 is “very much so”), to what extent did the Enhanced Protect Support offer help you to self-isolate?

1

2

3

4

5

6

7

14.Why do you say this?

15.Is the support for the individual or a wider household (if the support was for more than one person, how many people did this help?)

16.Was any other support required to enable you to self-isolate?

- Yes
- No
- I don't know
- Prefer not to say

17.What other items may have helped you to stay at home?

18.What other comments would you like to make about the Enhanced Protect Support offer?

19.Rydym yn deall eich bod wedi cael cyfarwyddyd yn ddiweddar i hunanynysu. A oedd hyn o ganlyniad i:

- Dderbyn canlyniad positif yn dilyn prawf Covid-19
- Gael eich enwi fel cysylltiad agos1

20.Gawsoch chi eich canlyniad prawf positif:

- Ar ôl cael prawf mewn canolfan galw-i-mewn gymunedol?
- Yn dilyn apwyntiad mewn prif ganolfan brofi ar ôl cael symptomau?
- Arall
- Nid wyf yn gwybod
- Mae'n well gennyf beidio ag ateb

21.Sut gawsoch chi eich adnabod fel cyswllt agos?

- Yn dilyn galwad ffôn gan Profi Olrhain Diogelu

- Yn dilyn galwad ffôn i Linell Gymorth Hunanynysu Cwm Taf Morgannwg
- Arall
- Nid wyf yn gwybod
- Mae’n well gennyf beidio ag ateb

22.Pryd glywsoch chi gyntaf am y Cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol?

- Cyn cael cyngor i hunanynysu
- Yn ystod sgwrs tra’r oeddwn yn cael fy nghynghori i hunanynysu
- Ar ôl cael cyfarwyddyd i hunanynysu
- Arall
- Nid wyf yn gwybod
- Mae’n well gennyf beidio ag ateb

23.A wnaeth y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol eich annog i fynd i gael prawf Covid-19?

- Do
- Naddo
- Ddim yn berthnasol
- Nid wyf yn gwybod
- Mae’n well gennyf beidio ag ateb

24.Yn ystod eich cyfnod hunanynysu, sawl gwaith wnaethoch chi adael eich cartref?

- Dim o gwbl
- Unwaith
- Dwywaith
- Nifer o weithiau
- Bob yn ail ddiwrnod
- Bob dydd

25.Ar raddfa o 1-7, (lle mae 1 yn “ddim yn cytuno o gwbl’ a 7 yn “cytuno’n gryf”), i ba raddau ydych yn cytuno â’r datganiad: “Rwy’n teimlo’n hyderus yn fy ngallu i hunanynysu drwy gydol fy nghyfnod hunanynysu.”

1 ○

2 ○

3 ○

4 ○

5 ○

6 ○

7 ○

26.Pam ydych chi’n dweud hyn?

27.Pa gymorth a gawsoch chi fel rhan o’r cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol?

28.A fyddai unrhyw ffynonellau cymorth eraill wedi eich annog/helpu i hunanynysu? E.e. ffrindiau a theulu, grwpiau cymunedol neu wirfoddol

○ Byddai

○ Na fyddai

○ Nid wyf yn gwybod

○ Mae’n well gennyf beidio ag ateb

29.Os ‘Byddai’, pa ffynonellau eraill oedd yn rhoi cymorth?

30.Ar raddfa o 1-7, (lle mae 1 yn “ddim yn cytuno o gwbl’ a 7 yn “cytuno’n gryf”), i ba raddau wnaeth y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol eich helpu i hunanynysu?

1 ●

2 ○

3 ○

4

5

6

7

31.Pam ydych chi'n dweud hyn?

32.A yw'r cymorth ar gyfer yr unigolyn neu ar gyfer aelwyd ehangach (os oedd y cymorth ar gyfer mwy nag un person, faint o bobl a gafodd eu helpu gan hyn?)

33.A oedd angen unrhyw gymorth arall i'ch helpu i hunanynysu?

- Oedd
- Nac oedd
- Nid wyf yn gwybod
- Mae'n well gennyf beidio ag ateb

34.Pa eitemau eraill allai fod wedi eich helpu i aros gartref?

35.Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau eraill am y cynnig Cymorth Diogelu Ychwanegol?

## Adran 2

The next set of questions asks about your personal characteristics. This is to help us understand the take up of the scheme among different groups of the population. Where possible, these questions have been aligned with those used by the Office for National Statistics (ONS).

36.Age

- 16-24

- 25-34
- 35-44
- 45-54
- 55-64
- 65-74
- 75+
- Prefer not to say

37.Sex - what is your sex?

- Female
- Male
- Prefer not to say
- 

38.Ethnicity - what is your ethnic group? Choose one option that best describes your ethnic group or background.

- White
- Black / African / Caribbean / Black British
- Asian / Asian British
- Mixed / Multiple ethnic groups Other (please specify)
- Prefer not to say

39.Disability - do you have any physical or mental health conditions or illnesses lasting or expected to last 12 months or more?

- Yes
- No
- Prefer not to say

40.Do any of your conditions or illnesses reduce your ability to carry out day-to-day activities?

- Yes, a lot
- Yes, a little

- [x] Not at all
- [ ] Prefer not to say

## Adran 3

Mae'r set nesaf o gwestiynau yn holi ynglŷn â’ch nodweddion personol. Pwrpas hyn yw ein helpu i ddeall faint o bobl sy'n manteisio ar y cynllun ymhlith gwahanol grwpiau o'r boblogaeth. Lle bo'n bosibl, mae'r cwestiynau hyn wedi'u halinio â'r rhai a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

41.Beth yw eich oedran?

- [ ] 16-24
- [ ] 25-34
- [ ] 35-44
- [ ] 45-54
- [ ] 55-64
- [ ] 65-74
- [ ] 75+
- [ ] Mae’n well gennyf beidio ag ateb

42.Rhyw - beth yw eich rhyw?

- [ ] Gwrywaidd
- [ ] Benywaidd
- [ ] Arall
- [ ] Mae’n well gennyf beidio ag ateb

43.Ethnigrwydd - beth yw eich grŵp ethnig? Pa un opsiwn yw’r disgrifiad gorau o’ch grŵp ethnig neu eich cefndir?

- [ ] Gwyn
- [ ] Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig
- [ ] Asiaiddd / Asiaidd Prydeinig
- [ ] Grwpiau cymysg / aml-ethnig Eraill
- [ ] Mae’n well gennyf beidio ag ateb

44.Anabledd - a oes gennych chi unrhyw gyflyrau corfforol neu iechyd meddwl neu unrhyw salwch sy'n parhau neu y disgwylir iddo barhau 12 mis neu fwy?

- Oes
- Nac oes
- Mae'n well gennyf beidio ag ateb

45.A oes unrhyw un o'ch cyflyrau neu unrhyw salwch sydd gennych yn cyfyngu ar eich gallu i wneud gweithgareddau o ddydd i ddydd.

- Oes, llawer
- Oes, ychydig
- Ddim o gwbl
- Mae'n well gennyf beidio ag ateb

**Atodiad C**

Copi o gwestiynau'r arolwg a ofynnwyd i sefydliadau partner.

Q1. Which organisation arranged the support for the individual / household?

Q2. How many referrals did each organisation receive?

Q3. How many referrals were taken forward and offered support?

Q4. Which food and essential items were offered as part of the pilot?

Q5. How much did the organisation budget on each referral?

Q6. How much did the organisation spend on each referral?

Q7. Were there any further requests for support from the individual / household?

If yes, what was requested?

Q8. Were any other services to support self-isolation offered by the organisation?

Q9. Did you receive any helpful feedback from recipients about the offer?

Q10. What do you think could have been improved about the support pilot?

**Cymraeg**

C1. Pa sefydliad drefnodd y cymorth ar gyfer yr unigolyn / aelwyd?

C2. Faint o atgyfeiriadau wnaeth pob sefydliad ei dderbyn?

C3. Faint o atgyfeiriadau a arweiniodd at gynnig o gymorth?

C4. Pa fwyd ac eitemau hanfodol a gynigiwyd fel rhan o'r cynllun peilot?

C5. Faint o gyllid a neilltuodd y sefydliad ar gyfer pob atgyfeiriad?

C6. Faint wariodd y sefydliad ar bob atgyfeiriad?

C7. A oedd unrhyw geisiadau pellach am gymorth gan yr unigolyn / aelwyd? *Os oedd, beth y gofynnwyd amdano?*

C8. A gynigiodd y sefydliad unrhyw wasanaethau eraill i gefnogi hunanynysu?

C9. A dderbynioch chi unrhyw adborth defnyddiol gan dderbynwyr am y cynnig?

C10. Sut gallem wella'r cynllun peilot cymorth?

Diolch yn fawr.